Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd am 6pm ar 15 Hydref 2025 yn Neuadd y Dref.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, W. Price, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

## 76. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. M. Evans, A. R. James, J. Kenney, Mrs D. L. King, Ms R. S. Roberts ac A. Walker.

Gwnaeth Caplan y Maer, y Parchedig Helen Gheorghiu Gould, ddechrau'r cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn dymuno gwneud hynny mewn gweddi.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 77. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan aelodau unrhyw fuddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

## 78. COFNODION

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 17 Medi 2025 | - Cofnodion rhifau 59-75 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd E. M. Chard a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio | - | 17 Medi 2025 | - Cofnodion rhifau 9-14 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

## 79. ADRODDIAD Y MAER

Yn absenoldeb y Maer ac absenoldeb dros dro'r Dirprwy Faer, cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) er gwybodaeth i'r aelodau.

***PENDERFYNWYD*** derbyn yr adroddiad.

## 80. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS MAI 2025 (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn rhoi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Rhif taleb | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| 2061 | BT | 87.06 | BT Neuadd y Dref – rhentu system |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2074 | BT | 414.65 | Canolfan Gymuned Ffordd Wellington – system ffonau a ffioedd |
| Amherthnasol | Tesco | 12.99 | Ffôn symudol |
| 2055 | BT | 378.00 | Gwasanaethau band eang Neuadd y Dref mis Gorffennaf 2025 |
| 2062 | BT | 378.00 | Gwasanaethau band eang Neuadd y Dref mis Awst 2025 |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi annomestig Swyddfeydd Dinesig Canolfan Cymuned Ffordd – taliad 6 o 10 |
| 2066 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 9,129.82 | Cyflog net i bedwar aelod o staff – mis Medi 2025 |
| 2064 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 2,058.55 | Talu wrth Ennill – mis Awst 2025 |
| 2065 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 2,425.02 | Cyfraniadau pensiwn – mis Awst 2025 |
| 2034 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau Budd-daliadau – taliad 6 o 12 yn 2025/26 |
| 2033 | Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych | 2,000.00 | Swyddog Effeithlonrwydd Ynni – taliad 2 o 4 yn 2025/26 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| Amherthnasol | Tesco | 9.00 | Ffôn symudol |
| 2087 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 – taliad 2 o 3 2025/26 |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **51,029.92** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 209.82 |
| HSBC | Llog chwarterol ar y cyfrif Money Maker | 736.04 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **945.86** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**81. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr o daliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (dosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2090 | Cyngor Tref Abergele | Dau docyn i ddigwyddiad elusennol ar 10 Hydref 2025 | £30.00 |
| 2094 | MDM Gardening & Lawn Services | Hylid bwydo a thrin yn y Gerddi Coffa | £42.00 |
| 2095 | Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru | Dau ginio i'r cynrychiolwyr yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2025 | £44.00 |
| 2097 | Sandra Williams | Gwasanaeth Cyfieithu | £183.61 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£299.61** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

**82. ADNEWYDDU'R YSWIRIANT 2025-2026**

Ymhellach i'r Cyngor yn cytuno i newid dyddiad adnewyddi ei yswiriant o 1 Mehefin i 1 Tachwedd, cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau ei gymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**83. PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU 2025/26: CHWARTER 2 – MIS EBRILL – MIS MEDI 2025**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), er gwybodaeth i'r aelodau.

[Ymunodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE â'r cyfarfod.]

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**84. CYFRIFON ARIANNOL BLYNYDDOL A RHAGFYNEGIADAU AR GYFER 2025/26**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda), yn dangos y perfformiad yn erbyn y gyllideb a mynegodd ei ddiolch arbennig i'r Swyddog Cyllid am ddarn o waith cynhwysfawr.

Nododd y Cadeirydd yr amrywiadau allweddol a ragfynegwyd a'r gwarged a ragfynegwyd, a'r angen i gynllunio sut i ddefnyddio Cronfeydd wrth gefn Prosiectau'r Maer y tu hwnt i'r gwariant a gynlluniwyd eisoes.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**85. COMISIWN FFINIAU CYMRU: ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH ARIANNOL BLYNYDDOL DRAFFT / YMGYNGHORIAD YNGHYLCH 2026/27**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad drafft (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a chyngorodd nad oedd unrhyw newid i lefelau'r lwfansau i Gynghorau Tref a Chymuned.

Cynghorodd ymhellach y dylai'r aelodau ystyried cynyddu'r Lwfans Dinesig i'r Maer a'r Dirprwy Faer i'r uchafswm o £1,500 (wedi'i bennu ar £1,300 ar hyn o bryd) a £500 (wedi'i bennu ar £400 ar hyn o bryd) yn ôl eu trefn. Roedd hyn yn rhywbeth y gellid gofyn i'r Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad, heb wneud unrhyw newidiadau i lefelau'r Lwfansau Dinesig.*

**86. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**87. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**88. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – TWRISTIAETH**

Croesawodd y Cadeirydd Ms Catrin Roberts, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol i'r cyfarfod, a'i gwahodd i wneud cyflwyniad i'r aelodau.

Diolchodd Ms Roberts i'r aelodau am ganiatáu iddi ddod i'r cyfarfod cyn eu hysbysu am gyfle cyffrous i siapio'r cynnig Canolfan Croeso newydd yn y Rhyl a Llangollen.

Esboniodd Ms Roberts y bwriedir ffurfio gweithgor yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys y Cyngor Tref, i benderfynu ar gynnig mwy modern ar gyfer y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *fod yr aelodau'n croesawu'r dull cydweithredol o weithio, a phenodwyd y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE a M. Blackwell yn aelodau'r gweithgor.*

**89. CANOLFAN GROESO'R RHYL**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn dilyn cais gan Dwristiaeth Gogledd Cymru am gyfraniad ariannol i alluogi'r ganolfan groeso i barhau ar agor yn ystod misoedd y gaeaf yn 2025/26, i'r aelodau ei ystyried.

Cynghorodd y Cadeirydd fod Is-bwyllgor Pwysau ar Gyllideb Cyngor Sir Ddinbych wedi cyfarfod i drafod y cais a'i fod yn argymell cymeradwyo'r swm llawn.

Cytunodd yr aelodau fod cadw'r ganolfan groeso ar agor tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf yn bwysig i economi'r dref yn y gaeaf.

Nododd Clerc y Dref fod yr is-bwyllgor hefyd wedi argymell fod y Cyngor Tref yn dechrau trafodaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych yn y flwyddyn newydd, er mwyn trafod dyfodol tymor hir y gwasanaeth allweddol hwn.

O gofio presenoldeb Ms Roberts ar gyfer yr eitem flaenorol roedd hyn yn cyd-fynd â dull gweithredu arfaethedig Cyngor Sir Ddinbych o sefydlu gweithgor i gytuno ar ddiweddaru'r cynnig a chynllun tymor hirach.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r swm o £16,200.*

**90. EITEM YCHWANEGOL: ADBORTH O GYFARFOD CYNGOR SIR DDINBYCH Â CHYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED**

Cynghorodd Clerc y Dref ei bod hi a'r cynrychiolydd penodedig, y Cynghorydd A. J. Rutherford, wedi mynd i'r cyfarfod a dywedodd mai'r prif bwyntiau oedd:

- Penodi Kate Thew, y Swyddog Cydgysylltu newydd, am gyfnod o ddwy flynedd. Ei phrif swyddogaeth yw gwella'r cyfathrebu rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned ac i adolygu'r cytundeb Siarter.

- Y cymorth a gynigir i gynghorau a grwpiau cymunedol gan y Tîm Gwydnwch Cymunedol, a oedd yn cynnwys garddio cymunedol, cymorth gyda llenwi ceisiadau am gyllid grant, mentrau rheoli gwastraff bwyd, symiau cymudol ac ati.

- Nad oedd y dyddiad hysbysu am swm y setliad gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn hysbys hyd yma, a'u bod yn gweithio ar fylchau cyllido wedi'u hamcangyfrif er mwyn paratoi ymlaen llaw gymaint ag y bo modd.

- Y byddai enw Prif Weithredwr newydd Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei gyhoeddi ddiwedd fis Hydref.

- Y byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Tai a Chymunedol newydd yn ei swydd erbyn mis Ionawr.

- Nad yw ad-drefnu cynghorau yn mynd i gael ei drafod mwyach, gyda'r nod o ganolbwyntio ar weithio'n gydweithredol yn y dyfodol.

**91. EITEM YCHWANEGOL: TOILEDAU CYHOEDDUS**

Cynghorodd Clerc y Dref fod ymateb a chynnig ariannol y Cyngor Tref i Gyngor Sir Ddinbych yn mynd i gael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Sir Ddinbych yfory a gan y Cabinet ar 18 Tachwedd, felly gallai'r aelodau ddisgwyl ymateb ffurfiol yn fuan wedi hynny.

**92. EITEM YCHWANEGOL: CYFARFOD ARBENNIG Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL**

Cynghorodd Clerc y Dref y byddai'n galw cyfarfod arbennig nos Fercher, 29 Hydref am 6pm, yn dilyn cyfarfod diweddar yr Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol, ble'r cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol atgoffa'r aelodau am y cyllid roeddynt wedi'i ymrwymo hyd yma ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r symiau sy'n weddill ar gyfer unrhyw feysydd gwariant eraill yr hoffent eu hystyried.

**93. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafodd, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: ……..…………………..

Dyddiad: ………………..………..